# Y Pwyllgor Darlledu

## BCC(3)-02-08 (Papur 1) - 21 Ebrill 2008

### Memorandwm gan Ron Jones

### Bwriad

Gofynnwyd i mi ddatgan fy marn yn rhan o ymchwiliad y Pwyllgor i ddyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, ac ar effaith terfynu analog a chreu llwyfannau dosbarthu newydd.

### Cefndir

Yr her fwyaf sy'n wynebu Cymru yw cynnwys. Nid yw'r llwyfannau dosbarthu yng Nghymru wedi'u datblygu hyd yr eithaf, ac maent yn ddrud. Bydd y rhain yn hollbresennol yn y dyfodol agos ac yn aroleuo'r diffygion sy'n ein hwynebu yn darparu'r cynnwys sydd ei angen ar Gymru a'i thrigolion.

Mae diffodd y gwasanaeth deledu analog o reidrwydd yn achosi problemau. Bydd nifer o bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, yn ei chael hi'n anodd canfod gwasanaeth digidol. Mae nifer o heriau wrth geisio sicrhau nad yw'r Cymry yn colli allan ac yn cael eu hamddifadu o'u gwasanaethau presennol. Mae gwasanaeth band llydan digidol yn broblem. Nid yw darpariaeth BT yng Nghymru yn ddigonol, ac nid yw Llywodraeth y Cynulliad wedi bod yn ddigon cadarn wrth ddelio gyda'r cwmni. Dyma fodd bynnag yw problemau cyflwyno technolegau gwahanol iawn eu natur yng Nghymru. Ni ddylai cymeriad y rhain, a'r anawsterau sy'n ein hwynebu wrth eu cyflwyno, ein harallgyfeirio o'r gwir fygythiadau a'r problemau.

Mae'r problemau sy'n amgylchynu creu cynnwys, darlledwyr gwasanaethau cyhoeddus a'u dyfodol yn cael eu gyrru gan newidiadau byd-eang. Mae'r Oes fyd-eang wedi cyrraedd, ac mae'r economi fyd-eang yn gyflym ddatblygu diwylliant byd-eang. Bu'r chwyldro diwylliannol hwn gyda ni ers cenhedlaeth bellach ond cymaint yw'r gyfradd newidiadau fel ein bod yn gweld datblygiadau newydd yn fisol sy'n effeithio ar bob un ohonom, hyd yn oed os na fyddwn yn sylweddoli hynny. Y brif broblem i Gymru yw sicrhau fod y gwasanaethau cyhoeddus angenrheidiol ar gael i bobl Cymru.

### Sefydliadau

Mae gan ein darlledwyr traddodiadol rôl allweddol i'w chwarae wrth ddarparu'r gwasanaethau hyn ond bydd rhaid iddynt newid eu ffordd o feddwl, a meithrin cynnwys sydd y tu allan i ffiniau eu diddordebau presennol, a derbyn efallai na fydd y sefydliadau eu hunain yn gymwys.

Yn ei Siarter mwyaf diweddar, mae'r BBC yn amlinellu beth ddylai ei wasanaethau cyhoeddus gyflawni. Dyma restr ddiwygiedig o'r rhain, sy'n adlewyrchu'r hyn y gallai Cymru obeithio cyflawni:

Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil;

Hyrwyddo addysg a dysgu;

Symbylu creadigedd a rhagoriaeth ddiwylliannol;

Cynrychioli Cymru, ei rhanbarthau a'i chymunedau;

Cyflwyno Cymru i'r byd, a'r byd i Gymru;

Helpu trosglwyddo i'r cyhoedd fuddiannau technolegau a gwasanaethau cyfathrebu newydd.

Mae'r rhain yn fan cychwyn da i werthuso'r hyn sydd gennym yng Nghymru heddiw, a'r hyn sydd angen ei wneud er mwyn sicrhau y cânt eu darparu. Bydd cysylltiadau byd-eang, gwasanaethau byd-eang a diwylliant byd-eang yn rhan bwysig o fywydau pobl Cymru yn y dyfodol ond ni fydd yn ddigonol.

Rydym yn dibynnu ar ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gan ein bod yn rhy fach ac yn rhy wan yn economaidd ar gyfer unrhyw ddatrysiad arall. Fodd bynnag nid yw'r BBC nac ITV wedi diwallu pob un o'r dyheadau a restrwyd. Mae S4C o reidrwydd yn yr un sefyllfa. Crëwyd S4C i ddiwallu gofynion siaradwyr Cymraeg ac ni ellir disgwyl i'r sianel ddarparu ystod lawn o'r gwasanaethau hyn i'r gwylwyr. Bellach dylem ystyried os yw'n sefydliadau darlledu wedi'u ffurfweddu yn iawn i ddiwallu anghenion Cymru. Rhaid i ni ystyried beth yw anghenion y bobl, a hyd at ba radd y gellir cyflawni'r anghenion hyn ar gost sy'n dderbyniol yn gymdeithasol ac yn wleidyddol.

Bydd hyn o reidrwydd yn ein tywys i feysydd sensitif. Rydym yn genedl ddwyieithog, ac efallai ei bod yn anghysondeb fod gwell darpariaeth ar gyfer siaradwyd Cymraeg na siaradwyr Saesneg o Gymru. Yn yr hirdymor nid yw'r sefyllfa hon yn gynaliadwy. Ond, dylid ystyried ymyrryd gyda'r trefniadau presennol yn unig pan allwn ddarparu datrysiad boddhaol i'r mwyafrif sy'n Saesneg uniaith. Mae datganoli wedi dangos mor Brydeinig yw'r BBC ac yn ôl pob tebyg mae'n afresymol disgwyl y gall esblygu'n sefydliad a fydd yn wirioneddol wasanaethu gwledydd y DU.

Wrth i anghenion y cynnwys newid, a chynnwys addysg, hyfforddiant a gwybodaeth gyhoeddus ar lefel lleol a lefel Cymru gyfan, nid y sefydliadau presennol yw'r rhai mwyaf addas i benderfynu ar gyllid, blaenoriaethau na chynnwys. Bydd y mwyafrif o'r gwasanaethau

angenrheidiol yn parhau i fod yn ddibynnol ar gyllid cyhoeddus.  Bydd strwythurau newydd sy'n galluogi hyn wrth gadw annibyniaeth rhag dylanwad gwleidyddol a darparu lleisiau lluosog yn flaenoriaeth.

### Cynnwys a dyfodiad y Cyfryngau Newydd

Ar hyn o bryd rydym yn gweld trawsffurfiad anochel o arferion gwylio pobl - yn symud oddiwrth deledu a ffilmiau i fath newydd o adloniant, addysg a gwybodaeth.  Technoleg band llydan yn gynyddol fydd yn arwain yn y maes hwn.

Ni fydd y sinema leol yn diflannu, ni fydd ein hoff sianelau yn diflannu chwaith, ond mae'r balans rhwng dosbarthiad yr hen sianelau a'r rhai newydd yn newid, ac fe fydd hyn yn cael effaith ddwys ar y cynnwys mae pobl am ei weld, a sut maent yn ei gyrchu.  Mae'r pwynt pan fydd fideo, teledu a ffilm yn rhan o'r diwylliant lawr lwytho yn dyfod.  Bu effaith y BBC iPlayer yn arwyddocaol yn y newid hwn.

Pan ddaw'r cyfnod, bydd y cwmnïau a'r gwledydd hynny sydd wedi paratoi at ddarparu cynnwys i'r amgylchedd newydd, yn debygol o ffynnu.  Fel y gwelwyd gyda rhai labeli recordio, mae'r ymddygiad newydd hwn ar ran y prynwyr yn dod a chyfleoedd newydd yn y farchnad.  Mae yma gyfle i wledydd a chwmnïau ecsbloetio'r farchnad hon,  ac mae modd i Gymru fod yn rhan o'r llwyddiant hwn.

Fodd bynnag y pryder nawr yw gwasanaeth cyhoeddus, a beth yw'r gwasanaethau y dylem eu darparu?  Wrth i ddiwylliant byd-eang ddod yn rhan o fywyd pawb, rhaid i ni flaenoriaethu a darparu'r gwasanaethau hynny na chaiff eu darparu gan y farchnad neu ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus ym Mhrydain.  Yn nhermau teledu, gellir dadlau y bydd ein teledu traddodiadol, ar y cyfan, gael ei gyfyngu i newyddion a materion cyfoes, chwaraeon a digwyddiadau yng Nghymru, rhaglenni byw a rhaglenni eraill sy'n unigryw i ddiwylliant Cymru.

### Argymhellion:

1.  Adolygu anghenion cynnwys gwasanaethau cyhoeddus Cymru dros yr 20 mlynedd nesaf.  Mae diffiniad diwygiedig Siarter y BBC o gynnwys gwasanaeth cyhoeddus  yn fan cychwyn delfrydol.  Dylem yn awr werthuso'r rhain yn erbyn beth sydd ar gael yng Nghymru heddiw, ac asesu'r opsiynau sydd ar gael wrth eu darparu.

2.  Adolygu'r sefydliadau o fewn darlledu a thu hwnt sy'n darparu cynnwys gwasanaeth cyhoeddus heddiw a gwerthuso sut y mae angen trawsffurfio'r rhain dros amser i gyflawni'r anghenion newydd.

3.  Adolygu, ar frys, y pwyslais cynyddol ar newyddion a materion cyfredol yng Nghymru, ac asesu ymarferoldeb gwella'r ymdriniaeth o'r materion hyn yng Nghymru yn nhermau dyfnder yr ymdriniaeth ac ehangu niferoedd y tarddiadau yn y rhan hanfodol hwn o'n bywyd cenedlaethol ni.